CYNLLUN ACHREDU AMGUEDDFEYDD Y DU

FFURFLEN ACHREDU AMGUEDDFEYDD BOB DWY FLYNEDD AR GYFER 2009

Nodiadau ar gyfer Cynghorwyr Curadurol

Anfonwyd Ffurflen i'r amgueddfeydd hynny y mae'n ofynnol iddynt lenwi ffurflen yn 2009. Y rhain yw'r holl amgueddfeydd a dderbyniodd dyfarniad rhwng 9 Chwefror 2005 a 22 Tachwedd 2007. Mae ein cofnodion yn nodi eich bod chi yn Gynghorydd Curadurol ar gyfer yr Amgueddfa sy'n cael ei henwi yn y dogfennau sydd wedi'u hatodi.

Gofynnir i Gynghorwyr Curadurol lenwi adrannau perthnasol y Ffurflen, gan gynnwys adroddiad cryno. Mae'r Ffurflen yn ddolen gyswllt bwysig rhwng yr amgueddfa a'r Cyngor MLA, CyMAL, Amgueddfeydd Orielau yr Alban (MGS) neu Gyngor Amgueddfeydd Gogledd Iwerddon (NIMC). Dylai adroddiad y Cynghorydd Curadurol ddarparu gymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl, er mwyn i'r sefydliad a fydd yn asesu gael darlun go iawn o'r materion sy'n wynebu'r amgueddfa yng nghyd-destun Achredu.

Gall Cynghorwyr Curadurol gysylltu â'r sefydliad asesu perthnasol yn gyfrinachol os ydynt am drafod unrhyw fater yn anffurfiol.

Hunanasesu Amgueddfeydd

Gofynnwyd i amgueddfeydd adrodd am unrhyw newid sylweddol yn y meysydd canlynol:
1.1 Cyfansoddiad neu drefniadau llywodraethu
1.2 Ailstrwythuro neu addasu trefniadau rheoli
1.4 Deiliadaeth y safle
1.6 Datganiad o Ddiben ac amcanion allweddol
1.8 Trefniadau Staffio
1.10 Cynghorydd Curadurol
2.0 Gwasanaethau i Ddefnyddwyr (gan gynnwys cau dros dro)
3.0 Cyfleusterau Ymwelwyr (gan gynnwys cau dros dro)
4.1 Polisi Caffael a Gwaredu
4.4 Cynllun dogfennau neu waith sydd wedi cronni
4.5 Gofalu am gasgliadau
5.0 Arall

Gofynnwyd i amgueddfeydd ddarparu hefyd gyfrifon terfynol wedi'u harchwilio / wedi'u cymeradwyo neu wariant wedi'i ddilysu ar gyfer cyfnod y ffurflen, yn ogystal â gwybodaeth am eu gweithgarwch o ran blaengynllunio.

Cynnwys adroddiad y Cynghorwyr Curadurol

1. Rhaid i Gynghorwyr allu cyflawni'r elfen bwysig hon o'u cyfrifoldebau. Os na fyddant yn gallu gwneud hynny, dylent adolygu'n ofalus eu gallu i gyflawni'r rôl.

2. Rhaid i adroddiad y Cynghorwyr gynnwys gwybodaeth o dan y penawdau canlynol:

• **Y Cysylltiad â'r Amgueddfeydd sy'n derbyn Cyngor** – darparwch fanylion cryno eich cysylltiad â'r amgueddfa dros y flwyddyn ddiwethaf, gan gynnwys nifer yr ymweliadau/cyfarfodydd a fynychwyd.

• **Derbyn gwybodaeth** – darparwch gadarnhad eich bod wedi derbyn holl gofnodion a phapurau cyfarfodydd corff llywodraethu'r amgueddfa.

• **Gweithgarwch Gwella** – darparwch sylwadau am unrhyw Gamau Gweithredu Gofynnol neu Feysydd i'w Gwella sydd eu hangen ar y Panel Achredu.

• **Sylwadau'r Cynghorwyr** – darparwch adroddiad cryno o weithgarwch yr amgueddfa os yw'r amgueddfa, yn eich barn chi, yn dal i fodloni'r Safon, neu os yw'n gweithio'n ddigonol i fodloni'r Safon.

3. Mae'r Cyngor MLA yn argymell ichi siarad gyda'r amgueddfa yr ydych yn ei chynghori i drafod unrhyw faterion neu bwyntiau penodol a allai fod yn berthnasol cyn ichi gwblhau eich adroddiad a llofnodi'r Ffurflen.

4. Ceir mwy o wybodaeth am sut y bydd Ffurflen Bob Dwy Flynedd ar gyfer 2009 yn gweithio ar y daflen 'Nodiadau ar gyfer Amgueddfeydd', sydd i'w cael ar wefan y Cyngor MLA.

http://www.mla.gov.uk/what/raising_standards/accreditation/Retaining_your_award

Pan fydd y ffurflen i'w dychwelyd, gan gynnwys eich llofnod a'r adroddiad, yn barod, dylech naill ai ei hanfon yn uniongyrchol i'r Cyngor MLA erbyn 30 Medi 2009, neu ei hanfon yn ôl i'r amgueddfa, gan adael digon o amser i'w postio i'r Cyngor MLA.

Ceir mwy o fanylion am rôl Cynghorydd Curadurol, gan gynnwys cyflwyno adroddiadau, ym Mhecyn Gwybodaeth y Cynghorwyr Curadurol. Dylech fod eisoes wedi derbyn y ddogfen honno, ond os nad oes gennych gopi, mae modd ei lawrlwytho o'r adran ar Achredu ar wefan y Cyngor MLA: www.mla.gov.uk.